*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 604

## Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015

### Enwi, cychwyn, a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran awdurdodau tân ac achub Cymreig(**1**) a daw i rym ar 1 Ebrill 2015.

### Dangosyddion perfformiad

**2.**—(1) Pennir y dangosyddion perfformiad yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddiben adran 8(1)(a) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

(2) Mae'r dangosyddion perfformiad a bennir yn yr Atodlen yn gymwys i flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2015 ac ar ôl hynny.

### Dirymu

**3.** Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011(**2**) wedi ei ddirymu.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

9 Mawrth 2015

(**1**) O dan adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, awdurdod tân ac achub Cymreig yw awdurdod yng Nghymru a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.

(**2**) O.S. 2011/558 (Cy. 80).